

Cynllun Talebau Gofal Plant - Parhau i fod yn rhan o'r Cynllun

Beth sydd wedi newid?

O'r 4ydd o Hydref 2018 ni fydd y Brifysgol yn gallu derbyn unrhyw geisiadau newydd i ymuno a'r cynllun Talebau Gofal Plant.

Pam mae hyn wedi digwydd?

Mae'r newid yn dilyn penderfyniadau gan y Llywodraeth I gyflwyno cynllun newydd, sef Cynllun Gofal Plant Di Dreth sydd wedi agor ers blwyddyn ddiwethaf

Beth yw'r cynllun Gofal Plant Di Dreth gan y Llywodraeth?

Mae'r cynllun Llywodraethol yn cael ei rhedeg fel cyfrif ar-lein sydd wedi ei sefydlu i help rhieni sydd yn gweithio efo'r gost o dalu am ofal plant.

Mae gwybodaeth bellach ar y cynllun ar gael ar safle we'r Llywodraeth,

<https://www.gov.uk/help-with-childcare-costs/tax-free-childcare>.

Bydd rhai unigolion yn derbyn gwell budd drwy'r cynllun Gofal Plant Di Dreth , mae'n bosib cael wybodaeth bellach ar hyn ar safle we'r llywodraeth.

<https://www.gov.uk/childcare-vouchers-better-off-calculator>

Rwyf yn y cynllun yn barod, beth rwyf angen wneud?

Os ydych yn y cynllun yn barod ac yn talu am dalebau ar hyn o bryd does dim angen i chi wneud dim bellach. Fe allwch barhau yn y cynllun ar ôl y 4ydd o Hydref 2018.

Beth os ydw i am newid y swm sy'n cael ei 'aberthu' i'r cynllun?

Gellir newid y swm sy'n cael ei 'aberthu' o'ch cyflog yn rhwydd drwy fewngofnodi i'r cyfrif Saycare Pass (<https://childcare.mysodexo.co.uk/login/payment>) a gofyn am y newid sydd ei angen. Eto, dylid newid hwn erbyn y 10fed o'r mis i weithredu'r newid yn y cyflog yn y mis penodol hwnnw.

Nodwch i weithredu unrhyw newid yn gyflog Rhagfyr bydd angen ei gwblhau erbyn yr 2il o Ragfyr gan fod cyflogau yn cau yn gynt a'r taliad cyflog yn gant yn y mis.

Beth sydd yn digwydd os rwyf yn gadael y cynllun?

Os byddwch yn gadael y cynllun yn y dyfodol ni fyddwch yn gallu ail ymuno.

Beth sydd yn digwydd os rwyf yn gadael y Brifysgol am swydd newydd?

Os byddwch yn dewis gadael y brif ysgol er mwyn gweithio a chyflogwr newydd ni fyddwch yn gallu parhau yn y cynllun, nag ymuno a'r un cynllun yn rhywle arall.

Rwyf yn y cynllun, ond ar hyn o bryd rwyf yn cymryd seibiant o dderbyn unrhyw dalebau, beth ddylwn wneud?

Fe allwch barhau yn y cynllun, ar yr amod eich bod wedi talu am a derbyn taleb o fewn 52 wythnos ar flaen y 4ydd o Hydref 2018..

Fe allwch gael egwyl o hyd at 52 wythnos heb orfod gadael y cynllun yn gyfan gwbl. Bydd rhaid i chi sicrhau fod unrhyw gyfnod egwyl ddim yn mynd dros y cyfnod yma neu bydd rhaid i ni ymdrin â'ch aelodaeth fel ei fod wedi terfynu.

Os ydych heb wneud unrhyw daliad am daleb yn y 52 wythnos flaenorol o'r 6ed o Ebrill bydd angen i chi sicrhau bod didyniad yn cael ei weithredu i brynu taleb o'ch cyflog yn fis Mawrth 18. Heb wneud hyn, byddwch yn cael eich clustnodi fel wedi gadael y cynllun a ni fyddwch yn gallu ail ymuno..